

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Llywydd y Mudiad

Chris Lewis

Cadeirydd y Cyngor

Caryl Haf

Is-Gadeirydd y Cyngor

Hefin Evans

Tîm Staff CFFI Cymru

Swyddog Gweithrediadau

(Cystadlaethau & Rhyngwladol)

Rhianwen Jones

Swyddog Gweithrediadau

(Digwyddiadau a Marchnata)

Anna Jones/ Ella Jones

Swyddog Gweithrediadau

(Datblygiad Cymraeg a Gwaith Ieuenctid)

Nia Haf

Swyddog Gweithrediadau

(Materion Gwledig)

Lee Pritchard

Swyddog Cyllid

Claire Powell

Gweinyddwraig

Megan Jones

Becky Duggan

Sally Griffiths

Gofalwraig Canolfan CFFI Cymru

Ann Hammonds

Rolau Pwyllgor

Cadeirydd Cyllid a Rheoli

Iwan Meirion

Is-Gadeirydd Cyllid a Rheoli

Caryl Haf

Cadeirydd Cystadlaethau

Sian Healey

Is-Gadeirydd Cystadlaethau

Sioned Davies

Cadeirydd Materion Gwledig

William Jones

Is-Gadeirydd Materion Gwledig

Dewi Davies

Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata

Aled Thomas

Is-Gadeirydd Digwyddiadau a Marchnata

Elliw Griffith

Cadeirydd Rhyngwladol

Nerys Lewis

Is-Gadeirydd Rhyngwladol

Caitlin Harley

Cadeirydd Fforwm Ieuenctid

Cerys Harts

Is-Gadeirydd Fforwm Ieuenctid

Carys Rees

Aelod Hŷn y Flwyddyn

Sioned Davies

Aelod Iau y Flwyddyn

Chloe Edwards

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Caryl Haf

Adroddiad Cadeirydd y Cyngor

Pwy feddylie pan ges i fy ethol yn is-gadeirydd C.Ff.I Cymru yn 2019 beth oedd o'n blaen ni, nid yn unig i ni yn bersonol fel unigolion drwy Cofid, ond y newidiadau mae'r mudiad wedi gorfod ei wneud yn ystod y pandemig hefyd. Mae rhai o'r newidiadau yma wedi newid y mudiad ar gyfer y dyfodol, a fy ngobaith i yw ei fod yn ehangu'r mudiad ymhellach, er enghraifft – er dwi'n shwr ein bod ni gyd wedi cael digon ar glywed y gair Zoom neu Teams, mae rhain yn rhoi'r cyfle i ni wneud cysylltiadau newydd, a medru cynnal cyfarfodydd efo is-bwyllgorau'r mudiad neu gysylltiadau tu allan i'r mudiad o'n cartrefi heb orfod teithio milltiroedd ar draws Cymru ac yn ehangach. Wrth gwrs mae Cofid wedi effeithio ar ein clybiau, siroedd, Cymru yn ogystal a'r cystadleuthau, ond fel Cadeirydd dwi'n hynod o falch o chi fel aelodau, cyn-aelodau, staff a chefnogwyr y mudiad am eich gwaith aruthrol yn ystod y 2 flynedd diwethaf. Fe wnaeth nifer o fudiadau tebyg iawn i ni gau lawr yn ystod y pandemig ac wedi methu cynnig dim i'w haelodau, ond fel mudiad y ffermwyr ifanc fe allwn fod yn falch iawn o'r hyn ni wedi neud yn ein cymunedau yn ogystal a nosweithiau clwb a'r cystadleuthau a gafodd ei cynnal ar lein – pwy fyddai'n meddwl y bydde ni'n neud beirniadu stoc ar lein? Dim fi yn bendant, ond mae'n braf nodi fod bob sir wedi bod yn cystadlu yn rhuthiol ar lefel Cymru yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod Haf 2021 roedd yn braf gweld nifer o'r cyfyngiadau yn codi a oedd yn golygu ein bod yn medru cynnal CCB C.Ff.I Cymru wyneb yn wyneb yn Llanelwedd lle ges i fy enwebi fel Cadeirydd C.Ff.I Cymru – moment arbenning i mi yn bersonol wrth i mi ddilyn ol troed fy nhad fel Cadeirydd y mudiad. Ar y nodyn yma hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Katie Davies, Sir Benfro am ei gwaith caled iawn yn ystod 2 flynedd anodd iawn, ond mi wnaeth gario'r mudiad yn gryf drwy Cofid.

Fe ddaeth Mis Medi ac mi ro' ni gyd yn edrych ymlaen i groesaw'r aelodau nol i'r clybiau'n wythnosol a dechrau cystadlu wyneb yn wyneb unwaith eto yn ystod y flwyddyn newydd o'r mudiad. Y gystadleuaeth gynta' i ni fel mudiad yng Nghymru wrth gwrs oedd yr Eisteddfod ym Mhontrhydfendigaid, oedd eleni yn cael ei westeio gan Sir Brycheiniog. Roedd yn hynod o braf cael ychydig o nolmalrwydd yn ol wrth gystadlu. Hoffwn ddiolch i S4C am ei cefnogaeth unwaith eto i ni fel mudiad. Yn wir traddodiad y mudiad fe aethpwyd yn syth i fewn i gystadlu yn syth gyda'r Ffair Aeaf – digwyddiad llwyddiannus arall i'r C.Ff.I, a braf nodi fod pob un o'r cystadleuthau wedi medru digwydd wyneb yn wyneb yn ystod y 2 ddiwrnod. Llongyfarchiadau mawr i bob aelod a oedd yn cystadlu, a diolch i chi am weithio gyda ni fel mudiad gyda'r newidiadau oherwydd cyfyngiadau Cofid.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Fe ddaeth 2022, ac yn anffodus fe ddaeth y cyfyngiadau yn ol gyda cystadlu'r mudiad yn dod i stop unwaith eto, gyda ni'n neud y penderfyniad o ohirio y gystadleuaeth pantomeim.

Braf oedd gweld holl aelodau ar draws Cymru yn cystadlu'n frwd yn y Diwrnod Maes ddiwedd mis Ebrill, a diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cydweithrediad a gwneud yn siwr fod popeth yn rhedeg yn hwylus. Fel mae'r mwyafrif ohonoch yn gwybod dwi'n shwr fod nifer o staff newydd wedi dechrau efo'r mudiad yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd diwetha, ac rydym yn ei crosawi nhw i gyd atom ac yn edrych ymlaen i weld ffrwyth llafur ei gwaith yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesa'. Roedd yn deimlad braf iawn I groesawi pwyllgorau mis Mehefin yn ol I Lanwelwedd wyneb yn wyneb, does dim byd gwell na chyfarfodydd o gwmpas bwrdd ac yng nghwmni ein gilydd.



Fe ddaeth pinacl y flwyddyn yng nghanol y gwres tanbaid wrth gwrs efo'r Sioe Frenhinol. Roedd yn braf gweld yr aelodau nol yn cystadlu'n frwd yn erbyn ei gilydd unwaith eto a'r bwrlwm o amgylch adeilad y Ffermwyr Ifanc unwaith eto. Hoffwn yn bersonol ddiolch I'r holl gymdeithasau am y gwahoddiadau i'r amrywiol gyfarfodydd a gweithgareddau yn ystod yr wythnos. Diolch hefyd I chi fel aelodau am weithio mor galed ermwyn dangos y talent aruthrol sydd gan y mudiad. Er falle nad oedd y Pentref leuenctid yn lwyddiant ysgubol yn ystod y nosweithiau, a gallai'ch anog chi fel aelodau I ddod a adborth I ni fel mudiad, er mwyn I ni fedru gweithio I wneud y Pentref leuenctid I fod yn lwyddiant eto yn y dyfodol. Fel rhan o'r fraint o fod yn Gadeirydd ar y mudiad mae'r cyfle i godi arian i elusen o'm dewis, ac eleni dwi wedi dewis Alzheimers Cymru – elusen sy'n agos iawn at fy nghalon gan i mi golli fy mam sawl blywyddyn yn ol yn ifanc iawn. Yn hytrach na gwneud her byddaf yn cynnal cinio mawreddog i holl aelodau, ffrindiau a chefnogwyr y mudiad ar y 29ain yn Neuadd Llanddewi Brefi.



Diolch o galon am y fraint o gael bod yn Gadeirydd ar y mudiad yma dros y 12 mis diwethaf – dwi wedi mwynhau bob munud o deithio hyd a lled Cymru I ymweld a chi fel siroedd. Dwi'n hynod o falch o deulu Mudiad y Ffermwyr Ifanc a'r gwaith mae pawb yn ei rhoi mewn i'r mudiad – does na ddim un mudiad ne sefydliad tebyg i gael allan yna. Plis cadwch ifyny efo'ch gwaith caled a phob lwc i C.Ff.I Cymru yn y dyfodol.

Diolch yn fawr,
Caryl Haf
Cadeirydd C.Ff.I Cymru





Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Cyllid a Rheoli

Iwan Meirion a Caryl Haf

Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod sawl gwaith dros y deuddeg mis diwethaf dros Zoom gyda'r cyfarfodydd yn cynnwys holl swyddogion CFFI Cymru, sydd wedi gweithio wrth ochr panel o arbenigwyr y mae'r mudiad yn ddyledus iddynt am eu presenoldeb a'u cefnogaeth, sef Kathryn Jones, Malcolm Thomas, Steve Hughson a Hilary Jones.



Mae'r pwyllgor wedi bod yn rheoli'r gwaith sydd wedi bod yn cael eu cynnal gan Menter a Busnes mewn perthynas a'r adolygiad. Mae hwn wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol COFID ac mae'r gwaith yn parhau.

Mae CFFI Cymru wedi cael mynediad at nifer o grantiau, gan gynnwys Cam 2 y gronfa Adfer ddiwylliannol, a ddefnyddiwyd i brynu offer diogelwch COFID a thalu i gefnogi'r mudiad wrth ddod allan o'r pandemig. Sicrhawyd cyllid WCVA i gefnogi datblygu ffrydiau incwm yn 2022-2023. Bu cais Ymddiredolaeth Elusennol NFU yn llwyddiannus a wedi'u defnyddio i gefnogi'r Diwrnod Amaeth ac i gefnogi hysbysebion swyddi. Daeth cyllid NYVO i ben yn 2021-2022. Derbyniwyd grant yr Iaith Gymraeg a chefnogodd swydd swyddog Datblygu'r Gymraeg ynghyd a chyflogau staff eraill a'r 12 sir.

Wrth i fywyd fynd yn ol i normal eto wrth ddod allan o bandemig COFID 19, croesawodd y mudiad y Pentref Ieuencid yn ol yn 2022. Goruchwylodd y Pwyllgor Cyllid a Rheoli broses y gyllideb wrth i aelodau'r Cyngor gytuno ar sawl newid i'r meini prawf archebu. Roedd Pentref Ieuencid 2022 yn cael ei farchnata fel lle diogel i aelodau CFFI i aros.

Mae aelodau'r is-bwyllgor Cyllid a rheoli wedi bod yn gyfrifol am ystyried a monitro pob agwedd o gyllid y ffederasiwn; gan gynnwys cyllidebau, nawdd a dosbarthu arian wrth gefn. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni'n gyson gyda diwydrwydd i nodau ac amcanion y sefydliad.

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Cystadlaethau Sian Healey a Sioned Davies

Yn dilyn dwy flynedd ryfedd o gyfarfodydd rhithiol a chystadlaethau ar gyfer Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, rwy'n falch i ddweud, er y cyfyngiadau a'r ansicrwydd, bod 96 cystadleuaeth unigol wedi cymryd lle yn ystod y flwyddyn, gyda 3,422 aelod yn cystadlu ar lefel Cymru a 167 aelod yn cynrychioli CFFI Cymru ar lefel FfCCFFI gyda nifer yn cael llwyddiant.

Eisteddfod CFFI Cymru wnaeth ddechrau'r rhaglen cystadlu, gyda CFFI Brycheiniog yn gwesteio, dyma'r Eisteddfod Genedlaethol cyntaf i'w cynnal mewn person ers dechrau'r pandemig. Roedd yn hyfryd gweld llwyfan llawn talent gyda Clwyd yn Sir fuddugol ar ddiwedd y diwrnod.

Nesaf roedd Ffair Aeaf CAFC 2021, ar Ddydd Llun 29ain a Dydd Mawrth 30ain Tachwedd. Cystadlodd aelodau mewn nifer o gystadlaethau gwahanol ac amrywiol dros y ddau ddiwrnod, o Farnu Stoc, Crefftau Nadolig, i Gystadleuaeth Coginio Cywain. Mi wnaethom gynnal dwy gystadleuaeth gydag ymgeisio'n uniongyrchol, Biff Ifanc a Phrif Gynhyrchedd Oen, y ddau yn gyfle gwyh i'n haelodau i ddangos eu sgiliau stocmon a dysgu gwybodaeth werthfawr o'r sector amaethyddol. Dyfarnwyd Prif Bencampwr Cynhyrchedd Oen i Fflur Roberts, CFFI Llanfair Caereinion a Phrif Bencampwr Biff Ifanc i Cai Edwards, CFFI Uwchaled.

Yn dilyn rhai misoedd distaw arall i CFFI Cymru heb gynnal Gŵyl Adloniant oherwydd cyfyngiadau pellach COFID-19 ar ddechrau 2022, mi gynhaliwyd Gŵyl Siarad Gyhoeddus yn Llanellwedd ar Fawrth 27ain. Dechreuodd y cystadlu am 9yb, gan roi cyfle i aelodau i ddangos safon uchel iawn o drafod, darllen, siarad cyhoeddus a chystadleuaeth codi hwyl. Roedd beirniaid pob cystadleuaeth wedi'u plesio gyda'r cystadleuwyr, wrth gael tasg anodd o ddewis buddugwyr! Enillodd CFFI Sir Gâr y Siarad Cyhoeddus Saesneg, yn ogystal â bod yn gyd-enillwyr o'r darian Siarad Cyhoeddus Cymraeg gyda CFFI Ceredigion.

Ar Ebrill 23ain, cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes CFFI Cymru yn Arwerthiant Ffermwyr Rhuthun wedi'i westeio gan Ffederasiwn Clwyd. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl gyda phresenoldeb da o bob Sir, gyda safon y cystadlu unwaith eto yn uchel iawn, hyd yn oed gyda thoriad o ddwy flynedd ers y Diwrnod Gwaith Maes diwethaf! Noddwyd y diwrnod yn garedig gan Wynnstay gyda Brycheiniog yn ennill.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Yn ffodus, llwyddodd y glaw i gadw ffwrdd ar ddydd Sul, Mehefin 19eg ar gyfer Diwrnod Mabolgampau CFFI Cymru, pan ddaeth llawer o'n haelodau talentog i gystadlu yng Nghanolfan Hamdden Aberhonddu. Roedd cystadlaethau tîm yn cynnwys; Rygbi Cyffwrdd, Ultimate Frisbee, Hoci 'Rush' merched a Dodgeball Dynion. Ymlaen at y cystadlu unigol gydag aelodau yn cymryd rhan mewn cystadlaethau taflu pwysau, disgen, naid uchel a naid hir. Roedd cystadlaethau trac 100m, 800m a ras gyfnewid hefyd wrthi. Daeth Ceredigion i'r brig fel Sir fuddugol yr adran athletau.



Wrth i flwyddyn CFFI ddirwyn i ben, pa ffordd well na dod ynghyd unwaith eto yng Nghanolfan CFFI Cymru ar Faes Sioe Frenhinol Cymru am sioe boeth arall! Drwy gydol yr wythnos, dangosodd yr aelodau eu sgiliau unwaith yn rhagor mewn rhaglen gystadlaethau llawn dop arall. Roedd y babell grefftau yn orlawn o greadigrwydd, gyda ffocws ar wllân fel un o'r deunydd crefft. Roedd gosodiadau'r blodau yn sefyll yn falch gyda gwaith caled parhaus yr aelodau i'w amlygu yn y gystadleuaeth Llyfr Lloffion.



Gwnaethpwyd hanes yn y cylch gwartheg ar y nos Lun, yn dilyn ymlaen o gemau rygbi 7 bob ochr NFU Cymru a CFFI Cymru. Am y tro cyntaf erioed yn Sioe Frenhinol Cymru, cynhaliwyd gêm rygbi merched gyda thimau cymysg gydag aelodau ar draws Cymru. Bu ymweliad brenhinol hefyd, gyda Ei Huchelder y Dywysoges Anne yn camu o'r cylch gwartheg wedi gwyllo'r cystadleuaeth Gwersyllwyr Galluog.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Roedd barnu stoc yn allweddol unwaith eto, gyda chystadleuaethau o amgylch faes y sioe, er mwyn profi manylder ein haelodau a'u harbenigedd cynyddol. Roedd yn amlwg i weld faint o'n aelodau sydd wedi'u geni yn berfformwyr naturiol, gyda maint y gynulledifa ar gyfer pob cystadleuaeth llwyfan yn brawf o'u poblogrwydd. Dangosodd cystadleuaeth gwaith coed dydd Iau hefyd yn arddangos sgiliau ein haelodau. Enillwyr terfynol Sioe Frenhinol Cymru 2022 oedd Ceredigion.

Ar ran fy hun a'r pwyllgor Cystadlaethau, ga i ddiolch i Rhianwen am eu holl gwaith caled ac ymroddiad i'r mudiad, nid oedd yn hawdd ar adegau gyda'r cyfyngiadau yn newid ond roedd gwên ar ei gwyneb beth bynnag oedd y broblem. Ga i ddiolch i holl staff a swyddogion

Sirol am eu cefnogaeth parhaus i hwyluso'r rhaglen gystadlaethau ar lefel sirol gan gynnig heriau, sgiliau a chyfleuoedd i bobl ifanc o oed amrywiol, gyda diddordebau a chefnidiroedd gwahanol. Diolch o galon i'r holl noddwyr, am eu cefnogaeth barhaus i raglen Cystadlaethau

CFFI Cymru. Diolch i staff a Swyddogion CFFI Cymru am eich holl gymorth a chefnogaeth drwy gydol y flwyddyn gyda'r rhaglen gystadlaethau, on yn enwedig yn ystod y Sioe Frenhinol. I'r arweinwyr clwb, rhieni a ffrindiau'r mudiad, diolch i chi am eich cefnogaeth parhaus a'ch ymroddiad wrth hyfforddi a datblygu aelodau gyda sgiliau am oes mae'r CFFI yn adnabyddus am eu creu. Yn olaf, diolch

i chi, aelodau CFFI Cymru, heb i chi fod ar y pwyllgor cystadlaethau a chynllunio'r cystadlaethau i'r aelodau gystadlu ynddynt a'r aelodau sydd yn cystadlu yn yr amrywiaeth o gystadlaethau a gynhelir, yn syml iawn, ni fyddai rhaglen gystadlaethau hebdoch chi.

Felly, diolch.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



PERSONÉL A THÂL

Mae'r Pwyllgor Personél a Thâl wedi cyfarfod sawl gwaith dros y flwyddyn i drafod a chefnogi staff yn CFFI Cymru. Croesawyd Prif Weithredwr newydd yn 2021-2022. Dechreuodd Mr Phil Ellis weithio i CFFI Cymru yn Nhachwedd 2021, fodd bynnag, yn Mehefin 2022, penderfynodd Phil i adael y mudiad. Ers 1 Gorffennaf 2022, aeth Claire Powell i'w rol fel Prif Weithredwr dros dro a fydd yn parhau yn y rol tan bod olynydd addas wedi'i benodi.

Drwy gydol y pandemig, mae staff wedi parhau i weithio o adref, fodd bynnag, o 1 Fai 2022, mae staff wedi bod nol yn gweithio o Ganolfan CFFI Cymru ar sail cyson, gyda aelod o staff yn y swyddfa bob dydd.

Cafodd Rhianwen Jones ei phenodi fel Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol yn Awst 2021.

Cafwyd benodiad newydd i'r rol Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn 2021, pan benodwyd Nia Haf. Mae Nia Haf yn gweithio'n llawn amser o adref ac yn gyfrifol am ddatblygiad yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant. Mae Nia hefyd yn cefnogi'r Fforwm Ieuenctid.

Cafodd staff dros dro eu penodi yn y cyfnod yn arwain i fyny at Sioe Frenhinol Cymru i gefnogi gyda'r gwaith ychwanegol ar gyfer y Sioe a'r Pentref Ieuenctid. Roedd dau aelod o staff rhan amser wedi'u croesawu i'r tim staff a lleddfwyd y pwysau i'r tim. Mae'r rol Materion Gwledig wedi'u llenwi yn ddiweddar ar ol cyfnod hir o fod yn wag ac edrychwnn ymlaen at weld yr elfen hwn o waith CFFI Cymru yn cael eu datblygu o'r diwedd.

Mae rolau staff eraill wedi'u cefnogi'n barhaus ac mae'r pwyllgor yn ymdrechu i gryfhau'r tim staff hyd eithaf eu gallu.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Materion Gwledig

William Jones a Dewi Davies

Mae'r pwyllgor Materion Gwledig yn darparu llais i'n haelodau ar faterion gwledig cyfoes ym mhob lefel o'r mudiad ac ymysg sefydliadau partner. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Ffederasiynau Sirol wedi bod yn rhan weithredol yng ngwaith y pwyllgor.

Mae'r pwyllgor wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ar Zoom gan orffen y flwyddyn gyda chyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghanolfan CFFI Cymru. Mae'r pwyllgor wedi bod heb aelod staff am fwyafrif o'r flwyddyn felly yn croesawu penodiad diweddar Lee Pritchard yn Awst 2022.

Mae'r bartneriaeth gyda Dŵr Cymru wedi parhau a lawnsiad cynllun llysgennad TarddLle wedi cael ymateb da, gyda chyflwyniad yn Sioe Frenhinol Cymru. Mae'r cynllun 2023 yn cael ei lawnsio penwythnos yma, fel pwyllgor, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Dŵr Cymru unwaith eto.

Fel pwyllgor Materion Gwledig, fe wnaethom ymateb i'r ymgynghoriad TB ar ol casglu barn aelodau ar y pwnc. Cynhaliwyd noson ymgynghori arlein gyda Dr Hazel Wright o FUW a wnaeth ein cefnogi fel pwyllgor wrth ymateb. Creuwyd ymateb llawn a'u hanfon yn Chwefror 2022.

Mae gan CFFI Cymru bartneriaeth cryf gyda Dunbia a Sainsbury wrth gyd-weithio ar y Cynllun Wyn. Mae'r cynllun yn rhedeg mewn i'w pymthegfed blwyddyn, i nodi'r dathliad, cafodd cig oen CFFI Cymru ei weini yn ystod cinio'r Llywydd ar ddydd Mawrth Sioe Frenhinol Cymru. Roedd bwrdd o gynrychiolwyr o CFFI Cymru, Dunbia, Sainsbury's ac aelodau'r gadwyn gyflenwi yn bresennol.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Menter Moch unwaith eto gyda'r ennillydd wedi'u cyhoeddi yn Sioe Frenhinol 2022. Y gobaith yw bydd y cynllun yn parhau os bydd y cyllid yn caniatáu yn ystod 2023.

Mae'r pwyllgor yn falch o fod nol yn cyfarfod eto ac yn edrych ymlaen at ail-gyflwyno taith astudio a chynhadledd MG fydd yn cymryd lle yn ystod y flwyddyn CFFI newydd.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Digwyddiadau a Marchnata

Aled Thomas a Elliw Griffith

Fel Cadeirydd Pwyllgor Digwyddiadau a marchnata yng nghanol pandemig COFID-19, mae wedi bod yn bleser mawr i weld aelodau'r mudiad yn neidio nôl iddi, gan gystadlu a mynychu digwyddiadau, yn fwy nag erioed.



Rydw i wedi bod yn hynod o falch o'r presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor eleni yn dilyn y penderfyniad i gynyddu'r nifer o aelodau o bob Sir ar y pwyllgor i 2 aelod. Mae'n deg dweud hefyd fod cyfarfodydd hybrid wedi chwarae rhan ffantastig i alluogi aelodau i ymuno, dim ots lle mae nhw a beth sydd ymlaen, i gael y cyfranogiad gorau.



Mae cynnydd dda wrth weithio gyda Menter a Busnes wrth baratoi strategaeth marchnata newydd ar gyfer y mudiad yn dilyn COFID, bydd hwn yn ddogfen bydd angen eu diweddarau yn aml ond yn bendant yn gam yn y cyfeiriad cywir ar gyfer y mudiad, ar gyfer aelodau a chlybiau i amlygu'r gwaith ffantastig maent yn eu gwneud. Pleser oedd gweld y Pentref Ieuencid enwog nôl ar ei draed eto, er yn fersiwn llai a chwasgedig, yn ôl penderfyniad Cyngor CFFI Cymru yn dilyn adborth gan aelodau CFFI ac eraill. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus arall, lle roedd aelodau yn medru mwynhau eu hunain mewn awyrgylch diogel yn ystod y Sioe Frenhinol hir ddisgwylidig. Mae'n deg dweud fod gan gweithgor Pentref Ieuencid a'r Pwyllgor Digwyddiadau a Marchnata llawer i'w ystyried ar gyfer Pentref Ieuencid 2023, ond mae sail cryf wedi'u sefydlu a rydw i'n edrych ymlaen at weld y digwyddiad yn tyfu i'w lawn potensial dros y blynyddoedd i ddod. Mae'n rhaid i mi ddiolch i Claire Powell ar ran y pwyllgor am eu holl waith caled angygoel a sylw i fanylder cyn y digwyddiad. Ni fyddai cynnal y digwyddiad wedi bod yn bosib heb dy help eleni.



Yn anffodus, wedi'r newyddion trist o farwolaeth ein Diweddarr Elizabeth II, rydyn ni yma heddiw ar faes y sioe yn hytrach nac yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, dwi'n siwr byddwch i gyd yn cefnogi'r 'CCB teithiol' sydd wedi eu cymeradwyo fydd yn gweld penywthnos y CCB yn teithio dros Cymru yn y blynyddoedd i ddod, gan rhoi cyfleuoedd i Siroedd i westeio aelodau ac adeiladu a chryfhau cyfeillgarwch. Hoffwn i ddiolch i'r holl staff a swyddogion am eu gwaith caled dros y deuddeg mis diwethaf, ac yn wir i bawb sydd wedi fod o gymorth i mi dros fy nhair blynedd fel Cadeirydd y Pwyllgor. Dymunaf y gorau i Elliw a'i thîm am y flwyddyn i ddod ac wrth gwrs, byddaf o gwmpas i gefnogi ym mhob ffordd posib.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Rhyngwladol

Nerys Lewis a Caitlin Harley

Wel am flwyddyn mae hi wedi bod, pan wnes i ddod yn Gadeirydd y pwyllgor, roedden ni dal i gyfarfod dros Zoom ac roedd y rhaglen teithio yn ansicr iawn, ond wrth i'r flwyddyn fynd yn ei flaen a phethau wedi gwella, rwy'n falch i ddweud fod dros 50 aelod o CFFI Cymru wedi teithio gyda'r rhaglen ryngwladol.



Mi gawson ni'r teithiau arferol gan gynnwys Rali Ewropeaidd yn yr Almaen, lle mae'n rhaid llongyfarch fy nghyn-gadeirydd Niall Evans ar ei lwyddiant o gael ei ethol yn Gadeirydd bwrdd Ieuencid Gwledig Ewrop. Cawsom hefyd teithiau yr Alban ac Ulster yn ogystal â'r hwylio a'r daith interailio, eleni cawsom gyflwyno dwy daith grŵp newydd. Yn gyntaf, aeth 8 aelod i Ynys Manaw ac yn ddiweddar, mi wnaeth 20 aelod ddychwelyd o Dde Affrica ar saffari.



Fel pwyllgor, rydyn ni wedi trafod gyda'r Fforwm Ieuencid a gobeithio trefnu taith grŵp o gwmpas Cymru i'n haelodau iau. Mae Cymru wedi gwsteio 5 unigolyn eleni, a chynnal barbeciw ar y Nos Sadwrn cyn y Sioe Frenhinol i gyfarfod pawb, roedd yn noson wych gydag aelodau ar draws Cymru yn mynychu ac edrychwn ymlaen at un flwyddyn nesaf. Mae'r pwyllgor yn edrych ar y rhaglen ar gyfer flwyddyn nesaf ac rydym yn gyffrous am gyfleoedd teithio'r dyfodol gallwn eu darparu i'r aelodau.



Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn gwsteio eleni ac anogwch aelodau eraill i westeio gan fy mod yn siŵr wnewch chi gytuno, fedrwch chi gael amser gwych a gwneud ffrindiau oes. Os nad ydych chi wedi meddwl am deithio gyda CFFI o'r blaen, pam? Mae'r cyfleoedd yn ddiidwedd. Ar ran y pwyllgor, aelodau cyfnewid Cymru a minnau, hoffwn ddiolch i Rhianwen am bopeth mae hi wedi'i wneud ar gyfer y rhaglen Ryngwladol dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ei werthfawrogi'n fawr.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Fforwm Ieuenctid

Cerys Herts a Carys Rees

Eleni, mae cynrychiolaeth o 6 ffederasiwn sirol wedi bod yn mynychu a chyfrannu'n effeithiol at waith y pwyllgor. Mae siroedd wedi bod yn cefnogi ei gilydd i adeiladu'u pwyllgorau yn ôl ar ol Cofid gyda syniadau ac ysbrydoliaeth gan bwyllgorau ieuenctid eraill.

Mae fforwm ieuenctid Sir Benfro wedi cynyddu i 20 aelod ac mae eu digwyddiadau cymdeithasol cyson a'r arian sydd wedi'u codi yn ysbrydoliaeth i siroedd eraill i weithio ar gael fforwm cryf eu hunain.


Senedd Ieuenctid Cymru

Roedd Fforwm Ieuenctid CFFI Cymru yn lwyddiannus yn ennill sedd fel sefydliad partner gyda Senedd Ieuenctid Cymru, gyda Cerys yn cynrychioli CFFI Cymru am y tymor presennol yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cael eu cynnal yn Siambrau'r Senedd.

Bu cysylltiad pellach, gyda Cerys a Carys yn cymryd rhan mewn sesiwn cwestiwn ac ateb yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol, gan gynrychioli lleisiau ffermwyr ifanc yng Nghymru,

Codi arian

Trefnodd y Fforwm Ieuenctid standin tu allan i swyddfa CFFI yn y Sioe Frenhinol, yn cynnig glityr gwyneb. Gweithiodd aelodau gyda'i gilydd dros y pedwar diwrnod o'r sioe ar amserlen, gan hyrwyddo gwaith y Fforwm Ieuenctid. Yn ystod tywydd poeth, roedd yn wych i gael y fforwm gyda'i gilydd yn eu digwyddiad cyntaf a chodi £45 ar gyfer y fforwm.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Sioned Davies

Aelod Hŷn y Flwyddyn CFFI Cymru

Rwy'n falch o ddweud fy mod yn aelod o'r mudiad arbennig hon.

16 mlynedd yn ôl fe wnes i fentro ar nos Lun cyntaf mis Medi i fynychu fy noson gyntaf gyda chlwb Llanwenog yng Ngheredigion, a dwi heb edrych yn ôl ers hynny. O chwarae knight, jockey, cavallier, i wheel bender fe ddes i yn rhan o'r teulu arbennig yma ac rwy'n falch o ddweud fy mod dal yno yn rhan o'r teulu mawr.

'Mentra at bob cyfle' yw un o'r dywediadau rwy'n ei gofio pan yn dechrau'r mudiad arbennig yma a dyna yr wyf wedi ei wneud. Mentro a datblygu gan ddysgu sgiliau newydd. Gyda'r holl sgiliau a profiadau yma rwyf yn sicr ni fyddaf yr unigolyn yr ydwyf heddiw. Yn sicr bydden i heb fentro i ymgeisio i fod yn Aelod Hŷn y mudiad a bydden i sicr ddim yn fy swydd broffesiynol heddiw sef athrawes.

Yn ystod fy siwrnai gyda'r mudiad mae yna sawl atgof yn dod i'r cof o'r cystadlu ar lefel Sirol, Cymru ac yn Genedlaethol i'r cymdeithasu yn y CCB blynyddol gyda Chymru ac yn Torquay a Blackpool. Mae'r ffrindiau rwyf wedi creu o ganlyniad i'r mudiad yn ddiben draw.

'Rwy'n ddyledus iawn i'r mudiad'. Mae'n anodd iawn rhoi mewn i geiriau pa mor ddiolchgar ydw i am yr holl gyfleoedd a'r profiadau rwyf wedi eu derbyn gan y mudiad arbennig yma. Yn sicr does yna ddim mudiad tebyg iddi ac rwy'n falch iawn o fod yn rhan ohoni.

Pan gefais fy ethol yn Aelod Hŷn C.Ff.I Ceredigion ac yna ymlaen i fod yn Aelod Hŷn C.Ff.I Cymru eleni, teimlais yn freintiedig iawn ac mae wedi rhoi'r cyfle i mi rhoi yn ôl yr hyn rwyf wedi ei dderbyn o'r mudiad yma. Fy ngair o gyngor ar gyfer darpar aelodau yw 'ewch amdani, peidiwch dweud 'na' achos yn y dyfodol byddwch yn ddiolchgar am bob cyfle rydych wedi ei dderbyn'. Diolch i'r C.Ff.I am bopeth!



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Chloe Edwards

Aelod Iau y Fflwyddyn CFFI Cymru



Rydw i wedi bod yn aelod o CFFI Trecastell ers bod yn 12 a rhaid dweud, dwi wedi mwynhau pob eiliad o'r 5 mlynedd hynny! Ers bod yn aelod o'r mudiad, dwi wedi cael y cyfle i brofi cymaint o gystadlaethau a sgiliau gwahanol. Mae ein harweinyddion clwb o hyd wedi ein hannog i roi cynnig ar bopeth, sydd wedi arwain at drïo paratoi oen, dawnsio ar lwyfan wedi gwisgo fel Tweedle Dee, cynnal taith fferm rithiol yn ystod clo Cofid ac yn ddiweddarach, ysgrifennu'r adroddiad hwn fel Aelod Iau'r flwyddyn!

Un o'r pethau rydw i'n caru am CFFI yw'r amrywiaeth eang o gystadlaethau rydyn ni'n cael y cyfle i gymryd rhan ynddynt, rydw i wedi mwynhau cystadlaethau'r siarad cyhoeddus yn benodol gan fod rhain wedi rhoi hwb i fy hyder i siarad o flaen pobl. Dim ots os yw'n gynulleidfa fawr yn y Wledd Adloniant, cyflwyniad ysgol neu rhoi rhesymau i feirniaid wrth farnu stoc, trwy gymryd rhan yn y cystadlaethau hyn, rydw i wedi dod yn berson mwy hyderus ac mae'r ddyled hynny i gyd i'r CFFI.

Rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i gymhwyso ar gyfer rowndiau terfynol Cymru ac yn Genedlaethol mewn amryw o gystadlaethau, sydd wedi galluogi mi i deithio dros Cymru gyfan a hefyd dros y ffin yn Lloegr i gymaint o lefydd, wrth gyfarfod pobl newydd, nifer o'r rhain buaswn i erioed wedi eu cyfarfod oni bai am y CFFI.

Yn ogystal â chystadlu, rydw i wedi cael y cyfle i weld ochr arall CFFI eleni fel Swyddog. Dwi wedi bod yn mynychu cyfarfodydd dros Zoom ac am y tro cyntaf, yn cael y cyfle i stiwardio, sydd wedi dangos i mi faint o waith paratoi sydd yn mynd mewn i redeg cystadlaethau a digwyddiadau ar gyfer ni fel aelodau, sy'n fy ngwneud yn ddiolchgar iawn o'n trefnwyr.

Mae'r CFFI wedi fy siapio fel person, gan roi hyder, sgiliau a chymaint o brofiadau i mi dros y blynyddoedd. Dwi'n gobeithio parhau gyda hyn am weddill fy amser fel aelod. Un peth dwi'n difaru – peidio ymuno yn gynt!

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Elen Bowen, Sir Gar

Rhyngwladol

“Rwy’n teimlo hi’n fraint ac yn ddiolchgar o wedi cael cyfle i arwain tîm ffantastig CFFI Cymru yn y Rali Ewropeaidd yn Nienburg, yr Almaen – am wythnos! Profiad byddaf i yn ei drysori am byth. Nid yn unig wnaethon ni ehangu ein dealltwriaeth am arferion cynaliadwyedd o bob rhan o Ewrop, ond fe wnaethom greu cyfeillgarwch gydol oes gyda chyfranogwyr o bob rhan o’r cyfandir. Trefnodd Ieuenctid Gwledig Ewrop ddigwyddiad mor wych a diolch i CFFI Cymru am y cyfle i gynrychioli fy nghlwb, Sir a gwlad! Mae Teithio CFFI yn rhoi cyfleoedd gwych i’w aelodau! Os nad ydych wedi ei brofi eto, beth ydych chi’n aros amdano? Byddwch chi ddim yn difaru!”



Alaw Rees

Rhyngwladol



Yn ddiweddar, mi wnes i dreulio 2 fis yn Ohio ar daith gyfnewid CFFI/IFYEA a chael amser gorau fy mywyd!

Wnes i fyw gyda thri teulu oedd yn fy ngwesteio mewn gwahanol rhannau o’r dalaith ac er i bob un rhoi profiadau a mewnwelediadau gwahanol i mi, fe wnaethon nhw i gyd roi atgofion byddaf yn eu trysori am byth.

Roeddwn yn lwcus iawn i fod wedi cael teuluoedd lletyol mor wych a wnaeth popeth i sicrhau fy mod yn cael y mwyaf o’r profiad; wnes i ymweld â Rheadr Niagara a nifer o barciau natur y dalaith, gwyllo Brooks & Dunn a Kenny Chesney yn fyw mewn cyngherddau, cerdded Oriol Anfarwolion Roc a Rôl, mynd ar deithiau cwch a theithiau rafftio, a threulio rhai diwrnodau yn Cedar Point. Fodd bynnag, cefais diwrnodau o waith yno hefyd a threuliais dyddiau yn trin gwair (mewn tywydd poeth iawn!), helpu gyda’r anifeiliaid, adnewyddu wagen wair a cheisio helpu gyda thrwsio peiriannau fferm, arsylwi ymweliadau milfeddygon, pobi a mynychu marchnadoedd fferm bob yn ail wythnos, adloni’r plant, ac uchafbwynt personol – cynorthwyo gyda pharatoi, mygu a bwyta brisged cig eidion barbeciw Venezuelan, oedd yn anhygoel!

Mi wnes i ddysgu llawer am ddiwylliant, bwyd a hanes America a Venezuelan a byddaf yn trysori’r cyfeillgarwch a’r atgofion a wnes i am byth. Rwy’n hynod ddiolchgar i CFFI Cymru a phawb a fu’n trefnu’r daith cyfnewid am ei wneud yn brofiad mor hyfryd ac yn agoriad llygaid.

Rwy’n edrych ymlaen yn barod at fy nhaith nesaf!

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



GRŴP ADEILADU

Drwy gydol pandemig COFID, mae'r Grŵp Adeiladu wedi cyfarfod ambell waith, er hyn, cafodd holl wariant ar yr adeilad ei ohirio. Wrth ddod allan o'r pandemig, roedd yn golygu fod y pwyllgor yn medru ail-afael ar y prosiect adeiladu.

Aeth llythyr allan i bob unigolyn wnaeth gefnogi'r ymgyrch prynu brics drwy gyfrannu, i rhoi trosolwg o beth mae Grŵp Adeiladu CFFI Cymru wedi bod yn ei wneud ers y cyfraniadau cychwynol a chynlluniau'r Grŵp i'r dyfodol.

Mae gwaith wedi parhau gyda Ymddiredolaeth Terrence Meredith, ac mae CFFI Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r cyfreithwyr i rhoi'r arian mewn cyfrif addas i'r gwariant cael eu rheoli yn briodol.

Neilltuodd y Grŵp Celf Creative i ddatblygu delweddau o adeilad newydd, cafodd rhain eu cylchredeg, wedi trafodaeth, pendefynwyd ail-feddwl beth mae CFFI Cymru eisiau o'r adeiladu ac o'r gofod i staff ac aelodau.

Rydym yn bwriadu cyfarfod fel Grŵp Adeiladu ym mis Medi gan groesawu unrhyw aelodau newydd i'r Grŵp. Wrth i ni adael y pandemig yn ei ol, rydym yn teimlo fod CFFI Cymru mewn lle gwell bellach i symud y prosiect adeiladu ymlaen.



Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Noddwyr y Ffederasiwn

Mae'r Ffederasiwn yn hynod o ddiolchgar am gefnogaeth noddwyr ein digwyddiadau a'n noddwyr corfforaethol, sy'n caniatáu i'r Ffederasiwn barhau i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc cefn gwlad Cymru.

Dunbia
Dwr Cymru
Menter Moch Cymru
CCF
FUW
ABP
Castell Howell
NFU Cymru
JCP Solicitors

Wynnstay
Cambrian Colleges – Llysfasi
Massey Ferguson
Harper Adams
NFU Charitable Trust
British Wool Board
Radnor Hills
S4C



Menter Moch Cymru

Developing the pig sector in Wales
Datblygu'r sector moch yng Nghymru



Dŵr Cymru
Welsh Water



NFU Mutual
Charitable Trust

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gall y mudiad eu cynnig yn cynnwys sylw yn ein digwyddiadau a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Ystadegau Aelodau 2019 – 2022

SIR / COUNTY	31/08/2019	31/08/2022	Newid o / Change from 18/01/2021	%
Brycheiniog / Brecknock	447	478	6.94%	
Sir Gâr / Carmarthenshire	664	807	21.54%	
Ceredigion	683	719	5.27%	
Clwyd	431	388	-9.98%	
Eryri	433	375	-13.39%	
Morgannwg / Glamorgan	226	272	20.35%	
Gwent	242	239	-1.24%	
Meirionnydd	240	183	-23.75%	
Maldwyn / Montgomery	658	603	-8.36%	
Sir Benfro / Pembrokeshire	540	589	9.07%	
Maesyfed / Radnor	459	418	-8.93%	
Ynys Môn	186	152	-18.28%	
CYFANSWM / TOTAL	5209	5223	0.27%	

Mae'r ffigurau hyn yn mynd tuag at Gystadleuaeth Aelodaeth NFU Cymru

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Ystadegau Aelodau 2021 – 2022

SIR / COUNTY	31/08/2021	31/08/2022	Newid o / Change from 18/01/2021	%
Brycheiniog / Brecknock	177	478	170.06%	
Sir Gâr / Carmarthenshire	419	807	92.60%	
Ceredigion	240	719	199.58%	
Clwyd	164	388	136.59%	
Eryri	56	375	569.64%	
Morgannwg / Glamorgan	87	272	212.64%	
Gwent	127	239	88.19%	
Meirionnydd	95	183	92.63%	
Maldwyn / Montgomery	234	603	157.69%	
Sir Benfro / Pembrokeshire	382	589	54.19%	
Maesyfed / Radnor	100	418	318.00%	
Ynys Môn	92	152	65.22%	
CYFANSWM / TOTAL	2173	5223		

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Adroddiadau Ariannol

Statement of Financial Activities for the Year Ended 31st March 2022

	Notes	Unrestricted funds £	Restricted funds £	31.3.22 Total funds £	31.3.21 Total funds £
INCOME AND ENDOWMENTS FROM					
Donations and legacies		21,354	258,449	279,803	488,847
Charitable activities					
General Events		162	-	162	1,752
International		5,370	-	5,370	3,569
Rural affairs		500	-	500	792
Young Peoples Village		-	-	-	3,552
Royal Welsh Show		50	-	50	-
Winter Fair		75	-	75	-
Public speaking		110	-	110	-
Entertainment Feast		-	-	-	40
Eisteddfod		8,230	-	8,230	-
Lamb Marketing		7,796	-	7,796	7,544
Other trading activities		10,310	-	10,310	-
Investment income		42	-	42	135
Total		53,999	258,449	312,448	506,231
EXPENDITURE ON					
Raising funds		2,267	10,739	13,006	21,103
Charitable activities					
General Events		8,633	117,106	125,739	114,361
International		3,384	3,257	6,641	8,441
Youth Forum		1,543	520	2,063	2,044
Sports Day		127	1,345	1,472	-
Rural affairs		252	9,027	9,279	47,122
Training		-	110	110	263
Marketing		2,769	38,563	41,332	19,159
Young Peoples Village		2,816	5,867	8,683	1,337
Royal Welsh Show		759	1,877	2,636	5,741
Spring Festival		-	15	15	-
Winter Fair		3,731	8,827	12,558	4,957
Public speaking		1,140	8,622	9,762	438
Field Day		126	2,006	2,132	33
Entertainment Feast		-	293	293	191
Eisteddfod		8,090	10,153	18,243	3,111
Lamb Marketing		2,015	1,986	4,001	3,796
Welsh Promotion		125	992	1,117	956

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Adroddiadau Ariannol

Wales Federation of Young Farmers Clubs

Statement of Financial Activities for the Year Ended 31st March 2022

	Notes	Unrestricted funds £	Restricted funds £	31.3.22 Total funds £	31.3.21 Total funds £
Total		<u>37,777</u>	<u>221,305</u>	<u>259,082</u>	<u>233,053</u>
NET INCOME		16,222	37,144	53,366	273,178
RECONCILIATION OF FUNDS					
Total funds brought forward		<u>424,792</u>	<u>257,032</u>	<u>681,824</u>	<u>408,646</u>
TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD		<u><u>441,014</u></u>	<u><u>294,176</u></u>	<u><u>735,190</u></u>	<u><u>681,824</u></u>

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Adroddiadau Ariannol

Wales Federation of Young Farmers Clubs

Balance Sheet 31st March 2022

	Notes	Unrestricted funds £	Restricted funds £	31.3.22 Total funds £	31.3.21 Total funds £
FIXED ASSETS					
Tangible assets		14,418	80,857	95,275	88,175
CURRENT ASSETS					
Stocks		2,464	-	2,464	2,464
Debtors		33,433	-	33,433	20,403
Cash at bank		<u>418,346</u>	<u>244,131</u>	<u>662,477</u>	<u>624,783</u>
		454,243	244,131	698,374	647,650
CREDITORS					
Amounts falling due within one year		(27,650)	(30,809)	(58,459)	(44,001)
		<u>426,593</u>	<u>213,322</u>	<u>639,915</u>	<u>603,649</u>
NET CURRENT ASSETS					
		441,011	294,179	735,190	691,824
TOTAL ASSETS LESS CURRENT LIABILITIES					
CREDITORS					
Amounts falling due after more than one year		-	-	-	(10,000)
		<u>441,011</u>	<u>294,179</u>	<u>735,190</u>	<u>681,824</u>
NET ASSETS					
FUNDS					
Unrestricted funds				441,011	424,792
Restricted funds				<u>294,179</u>	<u>257,032</u>
TOTAL FUNDS					
				<u>735,190</u>	<u>681,824</u>

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



Cysylltwch a'ch Ffederasiwn Sirol

Brycheiniog

01874 624889
brecknockyfc@gmail.com



Brecknock YFC
CFFI Brycheiniog

Sir Gar

01267 237693
sir-gar@yfc-wales.org.uk



Ceredigion

01570 471444
ceredigion@yfc-wales.org.uk



Clwyd

01978 790403
clwyd@yfc-wales.org.uk

Eryri

01286 677513
eryri@yfc-wales.org.uk



Morgannwg

07779 331839
glamorgan@yfc-wales.org.uk



Gwent

01291 672602
gwent@yfc-wales.org.uk



Meirionnydd

01341 423846
meirionnydd@yfc-wales.org.uk



Maldwyn

01686 888023
office@yfc-montgomery.org.uk



Sir Benfro

01437 762639
sir.benfro@yfc-wales.org.uk



Maesyfed

01597 829008
office@radnoryfc.org.uk



Ynys Mon

01407 720256
ynys.mon@yfc-wales.org.uk



@CFFI Cymru
@Wales YFC



@cfficymru_walesyfc1



CFFI Cymru
Wales YFC



cfficymru-yfc

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
Canolfan CFFI, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, Powys, LD2 3NJ

Rhif Ffon: 01982 553502
E-bost: gwybodaeth@yfc-wales.org.uk
Gwefan: www.cffi-cymru.org.uk

Elusen Gofrestredig: 1145230
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant: 7605068
Rhif TAW: 681 7888 74



www.cffi-cymru.org.uk

